Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

CREU GWASANAETHAU A CHEFNOGAETH SY'N HYGYRCH:

# Ymgysylltu Cymunedol

**I bobl gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.**

**Rydyn ni eisiau i bobl gael eu cefnogi i ymgysylltu â'u cymuned leol a chael ansawdd bywyd ble mae unigrwydd yn cael ei leihau.**

**I gyflawni hyn, byddwn ni'n gweithio tuag at:**

- **Gwella cysylltedd cymdeithasol ac annog perthnasoedd cadarnhaol rhwng cenedlaethau.**
- **Sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod rhywun yn gwrando arnynt wrth gael mynediad at wasanaethau, cymorth a gweithgareddau.**
- **Creu gweithgareddau cymunedol mwy hygyrch i bobl hŷn, a'r rhai sydd â nam ar y synhwyrau, anableddau corfforol neu broblemau symudedd.**
- **Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor am wasanaethau a chyfleoedd.**



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL?

Hoffai pobl gael mynediad at gymorth a gweithgareddau hygyrch.

Hoffen nhw gael gwybodaeth sy'n hygyrch a chyfredol er mwyn cefnogi dewis, gan gynnwys arwyddion hygyrch clir pan fyddwch yn cyrraedd rhywle. Mae angen i wasanaethau ddiwallu anghenion y rhai sydd ddim ar-lein.



## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Gweld pa wasanaethau sydd ar gael ac amlygu bylchau.
- Cyd-gynhyrchu atebion i ddiwallu anghenion a amlygwyd.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd pobl yn teimlo'n fwy cysylltiedig o fewn eu cymunedau.
- Llai o unigrwydd ac ynysrwydd.
- Cynnydd o ran niferoedd y bobl ag anghenion hygyrchedd, gan gynnwys anableddau corfforol a namau synhwyraidd, sy'n manteisio ar weithgareddau a chymorth.

**DYWEDODD POBL**

**"Dyw hi ddim mor anodd deall taw'r cyfan rydyn ni'n gofyn amdano yw help llaw."**